



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG44838

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn: Cynllunio Bysiau fel Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru

RHAGFYR 2022

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-106-1

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar –
Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn: Cynllunio Bysiau fel Gwasanaeth
Cyhoeddus i Gymru

Camau Gweithredu Angenrheidiol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn
ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm y Bil Bysiau
Ail Lawr Piler De B09
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: BusBillConsultation@gov.wales

Copïau Ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o
holl ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth
Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori wreiddiol: <https://llyw.cymru/un-rhwydwaith-un-amserlen-un-tocyn-cynllunio-bysiau-fel-gwasanaeth-cyhoeddus-i-gymru-html>

Cynnwys

ADRAN UN: Trosolwg	4
Cyflwyniad	4
Yr ymgynghoriad hwn	5
Dull o ddatblygu'r crynodeb o ymatebion	6
ADRAN DAU: Crynodeb o'r Ymatebion	7
Cwestiwn 1 – (Lleihau ein heffaith carbon)	7
Cwestiwn 2 – (Cynigion deddfwriaethol)	8
Cwestiwn 3 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)	9
Cwestiwn 4 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)	10
Cwestiwn 5 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)	11
Cwestiwn 6 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)	13
Cwestiwn 7 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)	14
Cwestiwn 8 – (Gofynion, rheoliadau a chanllawiau ychwanegol)	15
Cwestiwn 9 – (Gofynion, rheoliadau a chanllawiau ychwanegol)	16
Cwestiwn 10 – (Gofynion, rheoliadau a chanllawiau ychwanegol)	17
Cwestiwn 11 – (Trefniadau Pontio)	18
Cwestiwn 12 – (Cwmnïau bysiau trefol)	19
Cwestiwn 13 – (Cwmnïau bysiau trefol)	20
Cwestiwn 14 – (Cwmnïau bysiau trefol)	22
Cwestiwn 15 – (Cwmnïau bysiau trefol)	23
Cwestiwn 16 – (Cwmnïau bysiau trefol)	24
Cwestiwn 17 – (Cyffredinol)	26
Cwestiwn 18 – (Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft)	28
Cwestiwn 19 – (y Gymraeg)	29
Cwestiwn 20 – (y Gymraeg)	30
Cwestiwn 21 – (Sylwadau eraill)	31
ADRAN TRI: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad – Un Rhwydwaith Un Amserlen, Un Tocyn: Cynllunio Bysiau fel Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru	32
Casgliadau a'r camau nesaf	32
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr	33

ADRAN UN: Trosolwg

Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad papur gwyn hwn yn gam allweddol tuag at greu model newydd ar gyfer rhedeg bysiau yng Nghymru, ac yn gyfle inni godi ein disgwyliadau o ran yr hyn rydym am ei gael gan ein gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.

Roeddem am glywed lleisiau pobl ledled Cymru ac o bob rhan o'r diwydiant, i'n helpu i fanteisio ar y cyfle hwn i ailgynllunio ein model cyflawni ar gyfer gwasanaethau bysiau mor effeithiol â phosibl a rhoi system bysiau o'r radd flaenaf ar waith i Gymru.

Cynigiodd y papur gwyn "Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn: Cynllunio Bysiau fel Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru" newidiadau arfaethedig i'r modd y caiff gwasanaethau bysiau eu darparu yng Nghymru er mwyn cynllunio a darparu rhwydwaith bysiau sy'n addas ar gyfer yr argyfwng hinsawdd, sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n addas ar gyfer pobl Cymru.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ar y cynigion drwy 21 o gwestiynau. Roedd y cwestiynau'n seiliedig ar y themâu allweddol a'r cynigion yn y papur:

- Newid yn yr hinsawdd
- Cynigion deddfwriaethol
- Masnachfreinio
- Caniatáu cwmnïau bysiau trefol

Teithwyr yw ffocws ein cynigion. Mae angen i bobl gael rhwydwaith sydd wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n hawdd ei ddeall; bysiau sydd wedi'u hamserlennu i gysylltu â'i gilydd ac â threnau; ac un system docynnau syml sy'n hawdd ei defnyddio.

Cynigiodd y papur gwyn fodel masnachfreinio i gyflawni hyn ac i adeiladu rhwydwaith o fysiau a all gydbblethu â'r system drafnidiaeth ehangach.

Nod y model arfaethedig yw sicrhau gwaith cynllunio cydgysylltiedig rhwng y 22 o awdurdodau lleol a thrwy'r pedwar Cydbwyllgor Corfforedig rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y caiff cynllun rhwydwaith cenedlaethol ei lunio a'i gyflawni ar gyfer gwasanaethau bysiau ledled Cymru. Yn hytrach na chystadlu am sgiliau a phrofiad masnachfreinio ledled Cymru, rydym yn bwriadu sefydlu tîm masnachfreinio canolog o fewn Trafnidiaeth Cymru, i weithredu ar ran Gweinidogion. Bydd y tîm masnachfreinio arfaethedig yn cefnogi awdurdodau lleol a Chydbwyllgorau Corfforedig gyda'r gwaith o gynllunio'r rhwydwaith ac o osod a rheoli contractau masnachfaint, ar ran Gweinidogion Cymru, gan sicrhau bod yr un pŵer caffael ac adnoddau ar gael i bawb yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn helpu i hyrwyddo'r uchelgais o gydbblethu â'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus llawn er mwyn gallu cyflawni Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn yn effeithiol.

Mae'r Argyfwng Hinsawdd yn golygu bod angen cymryd camau ar fyrder. Mae'n rhaid i ni wneud mwy o gynnydd dros y 10 mlynedd nesaf nag a wnaed yn y 30 mlynedd diwethaf. Drwy fasnachfreinio byddwn yn gallu cynllunio rhwydwaith sy'n galluogi pobl i fynd i ble maent yn dymuno mewn modd rhwydd a dibynadwy, a hyrwyddo safonau datgarboneiddio cerbydau. Mae hyn yn allweddol er mwyn cefnogi graddau'r

newid sydd ei angen mewn dulliau teithio i gyrraedd ein targedau hinsawdd. Bydd hefyd yn cefnogi ein huchelgais o dorri allyriadau o'n fflyd o fysiau, gan alluogi pobl i symud o amgylch mor gynaliadwy â phosibl.


Yr ymgynghoriad hwn

Lansiwyd y papur gwyn hwn ar 31 Mawrth 2022, gyda'r ymgynghoriad yn agor ar yr un diwrnod. Parodd yr ymgynghoriad am 12 o wythnosau a daeth i ben ar 24 Mehefin 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Gellid cyflwyno ymatebion drwy'r post, dros e-bost neu ar-lein – drwy'r holiadur ar-lein. Derbyniwyd ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhannwyd y ddolen i'r ymgynghoriad hefyd â phartneriaid gan gynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru a chyrrff proffesiynol a sefydliadau cynrychioliadol perthnasol. Trefnwyd digwyddiadau rhithwir er mwyn siarad ag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau ac esbonio ein cynigion, ateb cwestiynau a chefnogi eu hymateb i'r ymgynghoriad, gyda swyddogion yn bresennol mewn digwyddiadau rhithwir eraill ar gais.

Pwy a ymatebodd?

Cafwyd 739 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Nododd 91% o'r ymatebwyr eu bod yn byw yng Nghymru. Mae'r map isod yn dangos ble roedd yr ymatebwyr wedi'u lleoli yn seiliedig ar y wybodaeth cod post a roddwyd ganddynt yn yr holiadur. Mae'r lliwiau tywyllach yn nodi niferoedd uwch o ymatebwyr yn yr ardal honno.



Ceir rhagor o wybodaeth am yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn yn yr atodiad i'r ddogfen hon.

Dull o ddatblygu'r crynodeb o ymatebion

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio manylu ar bob pwynt a wnaed gan ymatebwyr.

Gofynnodd yr ymgynghoriad 21 o gwestiynau i gyd. Mae'r crynodeb o'r ymatebion yn cyd-fynd â'r cwestiynau hyn. Nid oedd yn ofynnol i'r ymatebwyr ateb pob cwestiwn.

Dim ond un ymateb cyffredinol a roddodd rhai ymatebwyr a dim ond ymateb i faterion penodol ar yr ymgynghoriad o dan ymateb mwy cyffredinol a wnaeth rhai eraill. Penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnwys yr ymatebion hynny o dan gwestiwn 21 *“Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:”*. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau hyn fel rhan o'r casgliad cyffredinol fel y bo'n briodol.

Mae ymatebion a ddaeth i law drwy e-bost a thrwy'r post wedi cael eu mewnbynnu gan ein tîm ar yr arolwg ar-lein er mwyn gallu dadansoddi'r data mewn un man. Bydd gan y cofnod o'r ymatebion hyn yr un cyfeiriad IP. Bydd pob maes arall ond yn cynnwys data a fewnbynwyd ganddynt.


ADRAN DAU: Crynodeb o'r Ymatebion

Cwestiwn 1 – (Lleihau ein heffaith carbon)

A ydych yn cytuno bod angen newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau bysiau i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru ac i ymateb i'r argyfwng hinsawdd?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	84.6%	609
2	Cytuno	11.5%	83
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1.1%	8
4	Anghytuno	0.4%	3
5	Anghytuno'n gryf	1.9%	14
6	Arall	0.4%	3
Sylwadau:			257
wedi ateb			720
wedi hepgor			19



Ceir cefnogaeth ar y cyfan gan y mwyafrif llethol i'r cynigion yn y papur gwyn gyda chefnogaeth gref glir gan y cyhoedd. Dewisodd 84.6% o'r ymatebwyr "cytuno'n gryf" i'r cwestiwn hwn.

Cawsom 257 o sylwadau i gyd-fynd â'r cwestiwn hwn: roedd sylwadau'r ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan bod angen newid.

Nododd llawer o'r sylwadau ei bod yn anodd gwybod ar hyn o bryd pryd y byddai bws yn cyrraedd gan fod cymysgedd o gwmnïau yn gweithredu llwybrau ac nad oes amserlenni clir ar gael.

Mae awydd clir i gael cerbydau wedi'u huwchraddio sydd ag allyriadau isel. Nododd rhai pobl, er mwyn denu mwy o deithwyr, fod angen i'r bysiau fod yn fwy atyniadol i ddefnyddwyr - yn lanach, yn fwy dibynadwy, wedi'u huwchraddio, yn wyrddach.

Fodd bynnag, soniodd y rhan fwyaf o'r rhai a nododd newid yn yr hinsawdd hefyd fod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i fforddiadwyedd er mwyn annog pobl allan o'u ceir ac ar fysiau.

Croesawodd llawer o'r ymatebwyr o ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru y cyfle i wella gwasanaethau bysiau i'w hardal, a gofynnodd rhai a ellid rhoi mwy o flaenoriaeth i'w hardaloedd nhw uwchlaw ardaloedd mwy trefol. Soniodd sawl un am

ardaloedd penodol a rhifau llwybrau yr oeddent am iddynt gael eu gwella neu lle nad oedd unrhyw wasanaeth cydlynus.

“Mae'r dull gweithredu tameidiog o ran y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus yn golygu ei bod yn anodd iawn i'w ddefnyddio ac mae hyn yn gymhelliad cryf i bobl ddefnyddio eu ceir yn lle hynny”

“Dylid trin pobl ym mhob rhan o Gymru yn gyfartal. Dylai person (hen neu ifanc) allu defnyddio gwasanaeth bysiau rhesymol, ym mha le bynnag y bo”


“Mae cytundeb cyffredinol ymysg awdurdodau lleol y gellid gwneud gwelliannau i'r ffordd y caiff gwasanaethau bysiau eu rheoli ar hyn o bryd yng Nghymru. Ceir consensws llwyr hefyd fod angen newid radical er mwyn mynd i'r afael â her newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau”

Cwestiwn 2 – (Cynigion deddfwriaethol)

A ydych yn cytuno bod angen masnachfreinio er mwyn sicrhau maint a chyflymder y newid i'r rhwydwaith bysiau sydd ei angen yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	43.6%	312
2	Cytuno	22.7%	162
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15.9%	114
4	Anghytuno	7.0%	50
5	Anghytuno'n gryf	9.1%	65
6	Arall	1.7%	12
Sylwadau:			237
wedi ateb			715
wedi hepgor			24



Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod angen masnachfreinio, gyda chyfanswm o 66.3% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf a dim ond 16.1% yn anghytuno. Gwelsom nifer cymharol fawr o ymatebwyr (15.9%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n awgrymu bod hyn yn adlewyrchu cryfder yr ymateb i gwestiwn 1, lle'r oedd llawer o'r ymatebwyr am gael gweld gwelliannau mawr i wasanaethau, ond nad oedd ganddynt farn ar y model a

ddefnyddir i'w cyflwyno neu nad oeddent yn ystyried bod masnachfreinio yn rhan o'r ateb.

Rhoddodd y rhai a oedd yn anghytuno ac a gynigiodd sylwadau resymau amrywiol dros wneud hynny. Byddai'n well gan rai weld model darparu gwasanaeth cyhoeddus hyd yn oed yn gryfach: Nododd 61 o sylwadau (25.7% o'r rhai a roddodd sylwadau, gan gynnwys rhai a oedd yn cytuno â masnachfreinio a rhai a oedd yn anghytuno) y byddai'n well ganddynt gael model darparu gwasanaeth bysiau ledled Cymru sydd dan berchnogaeth gyhoeddus neu un nid-er-elw. Cododd eraill, a oedd yn anghytuno, bryderon ynghylch y risgiau o ran costau sy'n gysylltiedig â model masnachfreinio.

Cyfeiriodd llawer o awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau at elfennau o fodel Lloegr fel opsiwn amgen, lle mae pwerau masnachfreinio ar gael yn lleol, ond bod gan awdurdodau lleol hefyd hawl i ddefnyddio'r model partneriaeth statudol estynedig a ddefnyddiwyd fel dull cymharu yn ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.


Fodd bynnag, rhoddodd llawer o ymatebwyr sylwadau yn nodi eu bod yn cefnogi model masnachfreinio, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio a darparu bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus a chymryd dull gweithredu a arweinir gan anghenion i sicrhau y gall pobl gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.

Cwestiwn 3 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)

A ydych yn cytuno â'r model masnachfreinio a ffefir gan Lywodraeth Cymru fel y'i disgrifir uchod?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	51.8%	369
2	Cytuno	24.5%	175
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	12.8%	91
4	Anghytuno	3.6%	26
5	Anghytuno'n gryf	6.6%	47
6	Arall	0.7%	5
Sylwadau:			167
wedi ateb			713
wedi hepgor			26



Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (76.3% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r model masnachfreinio arfaethedig, gyda mwy na hanner yn cytuno'n gryf. Esboniodd llawer o'r rhai a roddodd sylwadau eu bod yn cefnogi hyn ar y sail ei fod yn rhoi pŵer i'r sector cyhoeddus gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau er budd y cyhoedd.

O blith y 167 o sylwadau a ddaeth i law, rhoddwyd amrywiaeth o resymau dros gytuno neu anghytuno, ac efallai mai'r sylw canlynol gan Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru sy'n crynhoi hyn orau:

“Dylai'r model delfrydol ddarparu gwasanaethau bysiau sy'n gyson, sy'n cyrraedd safon uchel o wasanaeth ac sy'n hawdd eu deall. Mae hyn yn gofyn am lefel o drosolwg ledled y wlad ac yn rhanbarthol, gan sicrhau mewnbwn lleol er mwyn adlewyrchu anghenion a heriau lleol”

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr fod angen cysondeb a chyfeiriad ar lefel genedlaethol i ddarparu gwasanaethau cyson o ansawdd uchel yn ogystal ag integreiddio â'r rheilffyrdd. Pwysleisiodd eraill fod angen gwybodaeth a mewnbwn lleol, gan awdurdodau lleol ac yn benodol drwy ymgysylltu â chymunedau lleol. Pwysleisiodd rhai o'r rhain bwysigrwydd cyd-fynd â swyddogaethau ffyrdd lleol a sicrhau bod awdurdodau'n cael cymhelliant i wella seilwaith bysiau.


Cododd rhai, gan gynnwys gweithredwyr a chyrrff cynrychioliadol, gwestiynau ynghylch nifer y lefelau gwahanol o lywodraeth a oedd yn rhan o'r system, a ph'un a fyddai hyn yn arwain at fwy o fiwrocratiaeth. Gwnaethant nodi pwysigrwydd cael system sy'n addasadwy, yn hyblyg ac yn ymatebol i newid. I'r gwrthwyneb, mynegodd rhai ymatebwyr eu barn y dylid cael mwy o ymgynghori, gyda chymunedau ar y cam cynllunio cychwynnol a gydag amrywiaeth ehangach o fewnbwn ar lefel bwrdd goruchwylol.

Cwestiwn 4 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)

A ydych yn cytuno bod y model hwn yn darparu digon o fewnbwn lleol ar gyfer cynllunio rhwydweithiau bysiau lleol?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	34.3%	241
2	Cytuno	33.5%	235
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	17.2%	121
4	Anghytuno	7.7%	54
5	Anghytuno'n gryf	6.4%	45
6	Arall	0.9%	6
Sylwadau:			160
wedi ateb			702
wedi hepgor			37



Ar y cyfan, cafwyd cytundeb bod y model arfaethedig yn cynnwys digon o fewnbwn lleol ar gyfer cynllunio rhwydweithiau bysiau gyda 34.3% yn cytuno'n gryf a 33.5% yn cytuno.

Cafwyd 160 o sylwadau. Mynegodd llawer y farn gyffredinol bod mewnbwn lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhwydweithiau bysiau lleol mwyaf effeithiol yn cael eu datblygu, a oedd yn diwallu anghenion teithwyr mewn lleoliadau daearyddol gwahanol.

Nododd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd rôl yr awdurdod lleol o ran casglu ac yn asesu safbwyntiau lleol. Nodwyd bod ymgynghoriad ystyrlon â chymunedau lleol gan yr awdurdod lleol yn rhagofyniad er mwyn sicrhau bod y model yn nodi anghenion lleol yn llwyddiannus.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd ymgysylltu â phob sector o'r cyhoedd. Nid dim ond defnyddwyr bysiau, ond ymgysylltu â grwpiau penodol, er enghraifft, pobl hŷn, y rhai o gymunedau gwledig, pobl anabl, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a phobl o grwpiau ethnig leiafrifol. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut y dylid mynd ati i ymgysylltu ac ymgynghori.


Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai atebolrwydd lleol dros wneud penderfyniadau yn lleihau o dan y model arfaethedig. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y byddai sgiliau a gwybodaeth leol yn cael eu colli mewn awdurdodau lleol. Nododd rhai o'r ymatebwyr bod angen sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y penderfyniadau a wneir ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn strwythur llywodraethu'r model

Cwestiwn 5 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)

A ydych yn cytuno bod angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried a chydgyssylltu cynlluniau rhwydwaith bysiau yn rhanbarthol, cyn eu cyfuno ar lefel genedlaethol?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	56.5%	403
2	Cytuno	29.7%	212
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	8.0%	57
4	Anghytuno	1.8%	13
5	Anghytuno'n gryf	3.4%	24
6	Arall	0.6%	4
Sylwadau:			162
wedi ateb			713
wedi hepgor			26



Ar y cyfan, roedd cytundeb bod angen i gynlluniau ar gyfer rhwydwaith bysiau gael ei gydlynw a'i ystyried yn rhanbarthol gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyda 56.5% yn cytuno'n gryf a 29.7% yn cytuno.

Cafwyd 162 o sylwadau. Cydnabu llawer o'r ymatebwyr ei bod yn amlwg bod angen gwaith cynllunio rhanbarthol ar gyfer rhwydwaith bysiau sydd â chydlyniaeth strategol ac i ystyried teithiau trawsffiniol yn well. Soniodd rhai o'r ymatebwyr am gysylltedd â gwasanaethau rheilffyrdd hefyd fel ystyriaeth ranbarthol.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon y byddai'r agwedd ar y model sy'n ymwneud â chynllunio rhanbarthol yn ychwanegu haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth neu waith gweinyddol a fyddai'n rhwystro'r broses. Cafwyd pryderon hefyd y byddai llai o ffocws ar anghenion lleol ar lefel ranbarthol ac roedd rhai o'r ymatebwyr yn rhagweld gwrthdaro rhwng nodau lleol a rhanbarthol.

Er bod rhai ymatebwyr yn hyderus bod gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig yr arbenigedd a'r profiad i gynnal y broses gydlynu ranbarthol, nododd ymatebwyr eraill eu bod yn sefydliadau cymharol newydd, bod ganddynt swyddogaethau eraill ac nad oeddent o reidrwydd yn meddu ar wybodaeth leol a thechnegol am seilwaith trafndiaeth gyhoeddus.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid cael amrywiaeth fwy eang o fewnbynnau ar lefel ranbarthol, ac y dylai cynrychiolwyr gyrywyr bysiau, teithwyr, pobl anabl a grwpiau defnyddwyr eraill, o grwpiau oedran gwahanol ac o leoliadau daearyddol gwahanol, gyfrannu at waith cynllunio rhanbarthol. Un awgrym oedd cael fforwm pwrpasol ar gyfer defnyddwyr bysiau a allai lywio gwaith datblygu gwasanaethau lleol/rhanbarthol. Roedd rhai ymatebwyr am weld proses ymgysylltu glir i gael safbwyntiau aelodau'r cyhoedd ar gynlluniau rhanbarthol.


Roedd rhai o'r ymatebwyr yn poeni y gallai strwythur cynllunio rhanbarthol arwain at ddiffyg atebolrwydd lleol ac at anwybyddu amgylchiadau lleol. Gofynnwyd sut y gellid sicrhau bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn atebol i gymunedau lleol

Cwestiwn 6 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)

A ydych yn cytuno bod gosod a rheoli contractau ar y lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru drwy Drafnidiaeth Cymru yn cynnig y cyfle gorau i gyfuno arbenigedd masnachfreinio a sicrhau arbedion maint?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	48.4%	343
2	Cytuno	25.1%	178
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	13.0%	92
4	Anghytuno	5.1%	36
5	Anghytuno'n gryf	7.5%	53
6	Arall	0.8%	6
Sylwadau:			162
wedi ateb			708
wedi hepgor			31



Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno mai dyfarnu contractau yn ganolog ar lefel genedlaethol sy'n cynnig y cyfle gorau i gyfuno arbenigedd masnachfreinio a sicrhau arbedion maint gyda 48.4% yn cytuno'n gryf a 25.1% yn cytuno.

Cafwyd 162 o sylwadau. Roedd llawer o'r sylwadau yn cytuno, er mwyn cael gwasanaeth unedig a chydlynol, mai masnachfreinio contractau ar lefel genedlaethol yw'r ffordd amlwg o sicrhau gwasanaethau gwell. Pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr fod mewnbwn lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw anghenion cymunedau bach yn cael eu diystyru. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr y farn mai perchnogaeth gyhoeddus o'r rhwydwaith trafnidiaeth yw'r model gorau.

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr effeithiau negyddol posibl ar BBaChau sydd eisoes yn gweithredu yng Nghymru. Mynegwyd pryderon y byddai gweithredwyr llai o faint o dan anfantais o'u cymharu â gweithredwyr mawr a, thros amser, y byddai'r sector yn mynd yn llai cystadleuol.

Nid oedd rhai ymatebwyr yn argyhoeddedig bod gan Drafnidiaeth Cymru yr arbenigedd angenrheidiol i redeg y model masnachfreinio bysiau. Roedd ymatebwyr eraill yn poeni ynghylch gwrthdaro buddiannau canfyddedig rhwng y rheilffyrdd a masnachfreinio posibl y bysiau.

Mynegodd sawl ymatebydd, awdurdodau lleol yn bennaf, eu pryderon y byddai arbenigedd lleol yn cael ei gollu pe bai Trafnidiaeth Cymru'n dyfarnu masnachfreintiau. Gallai'r broses o recriwtio a chadw staff mewn awdurdodau lleol greu problemau pe bai staff yn trosglwyddo i Trafnidiaeth Cymru ac yn gadael

awdurdodau lleol heb ddigon o arbenigedd i reoli eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â chludiant i'r ysgol.

Awgrymodd sawl un y gellid dyfarnu a rheoli contractau'n well ar lefel ranbarthol yn hytrach na chenedlaethol. Ymysg yr awgrymiadau eraill, fel dewis amgen yn lle Trafnidiaeth Cymru yn dyfarnu ac yn rheoli contractau, roedd Cyd-bwyllgorau Corfforedig neu awdurdodau lleol neu broses yn cynnwys rhanddeiliaid lleol i gynnwys y gweithredwyr, awdurdodau lleol a chyrrff cynrychioli cwsmeriaid.


Un pryder a oedd gan yr ymatebwyr oedd cludiant i'r ysgol a sut y byddai'r model masnachfreinio canolog yn effeithio ar y trefniadau presennol. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhwydwaith bysiau lleol yn hytrach na chael contractau penodol ar wahân. Lleisiwyd pryderon y gallai'r cynigion effeithio ar drefniadau cludiant i'r ysgol presennol awdurdodau lleol.

Cwestiwn 7 – (Ymgorffori gwybodaeth leol ac atebolrwydd lleol)

A ydych yn cytuno â'r angen am ddyletswydd i sicrhau bod cynlluniau wedi'u cynllunio i fod yn fforddiadwy?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	66.3%	467
2	Cytuno	21.7%	153
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	7.0%	49
4	Anghytuno	1.4%	10
5	Anghytuno'n gryf	2.6%	18
6	Arall	1.0%	7
Sylwadau:			170
wedi ateb			704
wedi hepgor			35



Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebion yn cytuno bod angen dyletswydd i sicrhau y caiff cynlluniau eu llunio i fod yn fforddiadwy, gyda dim ond 4% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Roedd yr ymateb mwyaf cyffredin ynghylch fforddiadwyedd i'r defnyddiwr terfynol gyda chwynion bod prisiau tocynnau yn rhy ddrud ar hyn o bryd, yn enwedig i'r rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hanfodol a chysylltiadau cymdeithasol. Nododd llawer o bobl y dylai teithio ar fysiau fod yn fforddiadwy neu am ddim hyd yn oed er mwyn annog pobl i newid eu dulliau teithio a soniodd ambell sylw am yr argyfwng costau byw, a bod hwn yn gyfle da i gynorthwyo defnyddwyr terfynol. Fodd bynnag, roedd gan lawer amheuan ynghylch sut y gellid cyflawni fforddiadwyedd a'i effaith. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys peryglu lefelau neu ansawdd gwasanaethau a chost a chynaliadwyedd tocynnau fforddiadwy i bwrs y wlad.

Nododd yr ymatebwyr hefyd y dylid ystyried fforddiadwyedd mewn cyd-destun hirdymor, gan dynnu sylw at yr angen am welliannau ymlaen llaw i wasanaethau a seilwaith er mwyn annog pobl i newid eu dulliau teithio. Soniodd nifer o'r ymatebwyr hefyd am yr angen i ystyried y costau allanol hirdymor os na fydd Cymru'n gwella ei rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus wrth ddiffinio fforddiadwyedd (fel newid yn yr hinsawdd, ansawdd aer gwael, buddiannau cymdeithasol a'i effaith ar iechyd a llesiant).


Gan edrych ar ymatebion sefydliadol yn benodol, roedd y mwyafrif hefyd yn cytuno y dylai'r cynlluniau fod yn fforddiadwy ond soniodd llawer am bryderon ynghylch sut y gellid cyflawni hyn gan nodi y byddent yn croesawu mwy o fanylion. Roedd y rhain yn amrywio o alw am ddyraniadau cyllideb amlflwydd, i ofnau y byddai dyheadau'n cael eu cyfyngu a ph'un ai mandadu fforddiadwyedd fel dyletswydd oedd y ffordd orau o weithredu.

Cwestiwn 8 – (Gofynion, rheoliadau a chanllawiau ychwanegol)

A ydych yn cytuno bod y pwerau arfaethedig i wneud rheoliadau a chanllawiau yn addas i sicrhau bod masnachfreintiau'n cael eu rhoi mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	36.1%	251
2	Cytuno	34.1%	237
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20.5%	143
4	Anghytuno	3.7%	26
5	Anghytuno'n gryf	3.7%	26
6	Arall	1.9%	13
Sylwadau:			116
wedi ateb			696
wedi hepgor			43



Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y pwerau arfaethedig i wneud rheoliadau a chanllawiau yn addas i sicrhau bod masnachfreintiau'n cael eu rhoi mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy, gyda 36.1% yn cytuno'n gryf a 34.1% yn cytuno. Roedd y ganran nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno yn 20.5%.

Cafwyd 117 o sylwadau i'r cwestiwn hwn. Nododd llawer o'r ymatebwyr nad oeddent yn teimlo y gallent farnu a oedd y pwerau arfaethedig yn addas. Roedd sawl ymatebydd o'r farn y byddai angen proses rheoli perfformiad neu adolygiad blynyddol er mwyn barnu a yw masnachfreintiau'n llwyddiannus a chynaliadwy. Un pryder oedd p'un a fyddai gan Trafnidiaeth Cymru neu awdurdodau lleol y sgiliau cynllunio angenrheidiol.

Roedd llawer yn cytuno bod canllawiau cadarn yn addas ac awgrymodd rhai y dylent gwmpasu materion ychwanegol, er enghraifft safonau cysur, safonau seilwaith neu safonau gwasanaethau cwsmeriaid. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn mai drwy reoliadau y dylid mynd i'r afael â safonau ansawdd fel llygredd aer neu hygyrchedd.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer y model masnachfreinio. Roedd y rhain yn cynnwys aelodaeth o'r Bwrdd Goruchwylio, gwrthdaro buddiannau posibl rhwng y partiön yn y model masnachfreinio, cael gweithdrefn datrys anghydfodau deg a fetu Gweinidogion Cymru dros y Bwrdd Goruchwylio.


Tynnodd sawl ymatebydd sylw at risgiau masnachfreinio i weithredwyr bysiau sy'n BBaCh a gweithredwyr bysiau trefol. Gwelwyd bod y rhain dan anfantais o gymharu â gweithredwyr eraill. Awgrymwyd y byddai angen i BBaChau gael help gyda'r broses cyflwyno cynigion.

Cwestiwn 9 – (Gofynion, rheoliadau a chanllawiau ychwanegol)

A ydych yn cytuno â'r gofyniad arfaethedig i ystyried yr effaith ar weithredwyr bysiau bach a chanolig wrth roi masnachfreintiau?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	38.4%	265
2	Cytuno	33.2%	229
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20.0%	138
4	Anghytuno	3.8%	26
5	Anghytuno'n gryf	2.9%	20
6	Arall	1.7%	12
Sylwadau:			137
wedi ateb			690
wedi hepgor			49



Dangosodd ymatebwyr ffafriaeth glir dros yr angen i ystyried yr effaith ar weithredwyr bysiau sy'n BBaCh wrth fasnachfreinio gyda 71.6% yn ymateb yn gadarnhaol, a lleiafrif llai yn dewis ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 20%.

Nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn glir ynghylch yr hyn a gaiff ei ddiffinio'n weithredwr sy'n BBaCh. Fodd bynnag, roedd llawer yn awyddus i rannu eu safbwyntiau cryf ar bwysigrwydd gweithredwyr sy'n BBaChau o ran darparu gwasanaethau na all gweithredwyr mwy eu darparu, yn benodol mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd lle darperir llai o wasanaethau. Nododd yr ymatebwyr hefyd anghysondeb yn ansawdd y gwasanaethau a gynigir gan weithredwyr sy'n BBaChau, gan roi sylwadau ar faterion fel amllder gwasanaethau a safonau fflyd.


Nododd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cwestiwn na ddylai unrhyw ymyriadau i ymgorffori BBaChau mewn masnachfreinio fod ar draul teithwyr ac y bydd angen i rai BBaChau newid eu hymddygiad er mwyn sicrhau eu bod yn gweld y darlun mwy ynghylch sut maent yn integreiddio ag ardal wedi'i masnachfreinio.

Roedd sefydliadau'n awyddus i dynnu sylw at bwysigrwydd marchnad gyflenwi amrywiol, gan dynnu sylw at ardaloedd rhanbarthol a gwledig a wasanaethir gan weithredwyr sy'n BBaChau, darpariaethau bysiau ar gyfer cludiant i'r ysgol a gaiff ei rhedeg yn bennaf gan weithredwyr sy'n BBaChau a'r gyflogaeth leol sy'n deillio o hyn. Roedd rhai sefydliadau'n pryderu y byddai masnachfreinio'n cael effaith negyddol ar weithredwyr sy'n BBaChau a gwnaethant rannu pryderon ynghylch eu gallu i gyflawni telerau contractau masnachfreinio, ac roedd gan eraill safbwynt mwy cadarnhaol y bydd hyn yn cynnig cyfle da i weithredwyr sy'n BBaChau ddefnyddio eu gwybodaeth fanylach a'u cysylltiadau cymunedol er eu budd wrth gystadlu am lwybrau sy'n gwasanaethu eu cymunedau.

Cwestiwn 10 – (Gofynion, rheoliadau a chanllawiau ychwanegol)

**A ydych yn cytuno â manteision sefydlu mecanwaith i ganiatáu i Weithredwr Gwasanaethau Cyhoeddus Dewis Olaf sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i weithredu os bydd masnachfrait yn methu?
Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.**

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	69.4%	493
2	Cytuno	20.8%	148
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	5.5%	39
4	Anghytuno	1.0%	7
5	Anghytuno'n gryf	2.3%	16
6	Arall	1.0%	7
Sylwadau:			155
wedi ateb			710
wedi hepgor			29



Mae'n amlwg o'r canlyniadau bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod sefydlu mecanwaith i ganiatáu ar gyfer Gweithredwr Dewis Olaf yn opsiwn da os bydd masnachfrait yn methu, gyda 90.3% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Mae parhad gwasanaeth yn anghenraid.

Rhoddodd 155 o bobl sylwadau pellach ar y cwestiwn hwn.

Roedd mwyafrif mawr o'r sylwadau yn cytuno bod angen cael dyfais fethu ddiogel o'r fath, gyda rhai yn dweud bod hyn yn rhan hanfodol o'r cynllun. Nododd llawer, ar ôl gweld sut y gall Gweithredwr Dewis Olaf weithio ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd, ei bod yn amlwg bod angen i hyn fod ar waith ar gyfer bysiau hefyd.

Nododd rhai fod angen ystyried beth fyddai ei angen i'r Gweithredwr Dewis Olaf ddechrau gwasanaethau ar unwaith fel p'un a fyddai gan sefydliadau y gallu i ddarparu gwasanaethau ar y raddfa gywir a'r trwyddedau cywir, digon o staff ar gyfer gwasanaethau, y fflyd a'r depos cywir neu a fyddent yn cadw at y cynlluniau llwybrau presennol.

Nododd yr ymatebwyr fod angen ystyried y contractau cychwynnol a ddyfernir i weithredwyr masnachfrait. Mae angen i'r gweithredwyr allu ymdopi â'r contractau hyn. Mae angen pecynnu llwybrau mewn ffyrdd sy'n ddeniadol ac yn gyflawnadwy a'u monitro a'u cynnal. Dylid egluro na all gweithredwyr masnachfrait droi cefn ar lwybrau a all wedyn gael eu rhoi yn nwylo'r wladwriaeth i'w darparu.

Dylid nodi bod rhai o'r ymatebwyr a nododd "anghytuno'n gryf" wedi mynd ymlaen i roi sylwadau pellach y dylai'r opsiwn hwn fod yn "ddarparwr dewis cyntaf" ac y dylem gael system wedi'i gwladoli'n llawn ar waith yn lle masnachfreinio.

Cwestiwn 11 – (Trefniadau Pontio)

A ydych yn credu bod angen darpariaethau deddfwriaethol penodol pellach ar gyfer y cyfnod pontio nes i fasnachfreinio gael ei gyflwyno?

Cafwyd 423 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif yn cytuno y gall fod angen darpariaethau deddfwriaethol penodol ar gyfer y cyfnod pontio. O'r rheini a soniodd am yr hyn y gallai'r darpariaethau hyn eu cwmpasu, roedd y nifer mwyaf yn ymwneud â sefydlogrwydd y rhwydwaith a'r angen i ddiogelu gwasanaethau presennol yn ystod y cyfnod pontio i fasnachfreinio.

Nododd rhai o'r ymatebwyr fod y risgiau yn y cyfnod pontio yn cynnwys: gweithredwyr bysiau yn dirwyn llwybrau i ben, gan adael bylchau yn y rhwydweithiau neu weithredwyr yn gadael y farchnad yn llwyr, a bod angen i awdurdodau lleol gael amser i gynllunio ar gyfer dod â contractau presennol i ben, a bod ansicrwydd yn atal buddsoddiad mewn gwasanaethau bysiau. Roedd rhai o'r farn y gall fod yn fwy heriol i BBaChau gystadlu ac y gall hyn gael effaith ar wasanaethau eraill e.e., cludiant i'r ysgol.


Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y byddai cynllun peilot neu ryw fath o gyfnod prawf neu broses gyflwyno'n raddol ledled y wlad yn gam defnyddiol cyn cyflwyno masnachfreinio llawn i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynnal heb fylchau sylweddol.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y gellid diogelu safonau ansawdd ar gyfer contractau, safonau amllder gwasanaethau, y broses o ddarparu gwybodaeth ac amodau cyflogaeth gweithredwyr bysiau drwy reoliadau neu ganllawiau yn ystod y cyfnod pontio. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y gallai fod angen i sectorau penodol gael cymorth ychwanegol i fachu ar y cyfleoedd a gynigir gan fasnachfreinio, er enghraifft BBaChau a'r sector Trafnidiaeth Gymunedol.

Cwestiwn 12 – (Cwmnïau bysiau trefol)

**A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i awdurdodau lleol weithredu gwasanaethau bysiau'n uniongyrchol?
Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.**

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	60.5%	431
2	Cytuno	20.8%	148
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	8.7%	62
4	Anghytuno	3.8%	27
5	Anghytuno'n gryf	5.1%	36
6	Arall	1.1%	8
Sylwadau:			195
wedi ateb			712
wedi hepgor			27



Ceir cefnogaeth amlwg i ganiatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru weithredu gwasanaethau bysiau'n uniongyrchol. Nododd 81.3% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.

Roedd y mwyafrif llethol o'r 195 o sylwadau pellach yn cefnogi bwriad y polisi, gyda llawer yn nodi y byddai gwybodaeth ac adnoddau lleol awdurdod lleol o fudd i gymunedau.

Nododd rhai eu bod o'r farn y byddai defnyddio gwasanaeth dan berchnogaeth gyhoeddus yn arwain at gostau is ac y byddai'n fwy costeffeithiol na gweithrediad masnachol. Ychwanegodd rhai y byddai'n rhaid i'r cwmnïau hyn ddilyn yr un prosesau craffu ac archwilio â busnesau masnachol er mwyn sicrhau gwerth am arian a bod safonau gwasanaeth yn cael eu cynnal.

Roedd rhai sylwadau gwrthwynebus yn sôn am allu'r awdurdodau lleol i redeg cwmni bysiau. Roedd yr ymatebwyr, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn cael eu gwasanaethu gan gwmni trefol, neu'r rhai sydd eisoes yn gweithredu gwasanaethau'n uniongyrchol yn cefnogi hyn. Ond roedd gan rai o'r ymatebwyr safbwyntiau eithaf cryf na ddylai hwn fod yn faes i awdurdodau lleol, ond y dylai gael ei adael i gwmnïau masnachol.

Nododd rhai eu bod yn poeni a allai gweithrediad mewnol gystadlu mewn gwirionedd â gweithredwr masnachol, a gwnaethant gwestiynu sut y byddent yn cael eu trin wrth gyflwyno cynnig am gontractau masnachfaint.

Mae'n bwysig inni hefyd edrych ar yr ymatebion gan awdurdodau lleol yn benodol yn ogystal â'r ymateb cyffredinol:

Data gan ymatebwyr o awdurdodau lleol:


Dewis o Atebion	Canran Ymateb
Cytuno'n gryf	22%
Cytuno	33%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	28%
Anghytuno	6%
Anghytuno'n gryf	0%
Arall	11%

Roedd y sylwadau cyffredinol yn cefnogi'r nodau a, phe bai'r risg wedi'i hystyried yn llawn, y byddai'n beth da. Dim ond un awdurdod lleol oedd yn anghytuno yn seiliedig ar ei bryderon ynghylch risg ariannol, fodd bynnag, roedd yn cefnogi'r syniad os bydd masnachfaint yn methu a'r angen am "weithredwr dewis olaf". Dywedodd ambell un ei bod yn ddefnyddiol cael hyn fel opsiwn os byddai awydd i wneud hynny.

Cwestiwn 13 – (Cwmnïau bysiau trefol)

**A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i awdurdodau lleol sefydlu cwmnïau hyd braich i weithredu gwasanaethau bysiau lleol?
Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.**

Dewis o Atebion	Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1 Cytuno'n gryf	40.8%	286
2 Cytuno	27.8%	195
3 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	17.3%	121
4 Anghytuno	7.6%	53
5 Anghytuno'n gryf	5.4%	38
6 Arall	1.1%	8
Sylwadau:		159
	wedi ateb	701
	wedi hepgor	38



Ceir cefnogaeth amlwg yn y canlyniadau uchod ar gyfer caniatáu i awdurdodau lleol sefydlu cwmnïau hyd braich i weithredu gwasanaethau bysiau lleol gyda 68.6% yn dewis "cytuno'n gryf" a "cytuno". Fodd bynnag, nid yw hyn mor uchel â'r cwestiwn blaenorol (gweithrediadau a gaiff eu gweithredu'n uniongyrchol).

Cafwyd 159 o sylwadau ychwanegol i'r cwestiwn hwn.

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, roedd rhai sylwadau yn cwestiynu a allai cwmni hyd braich gystadlu â gweithredwr masnachol.

Nododd llawer o'r ymatebwyr, pe bai hyn yn digwydd, y dylid gwario'r elw ar wella gwasanaethau lleol a seilwaith bysiau yn eu hardaloedd a pheidio â'u dargyfeirio i unrhyw le arall.

Nododd ambell un nad oeddent yn deall beth oedd cwmni hyd braich.

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, gwnaethom edrych yn benodol ar yr ymateb gan awdurdodau lleol:

Data gan ymatebwyr o awdurdodau lleol:

Dewis o Atebion	Canran Ymateb
Cytuno'n gryf	22%
Cytuno	28%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	28%
Anghytuno	11%
Anghytuno'n gryf	6%
Arall	6%


Ar y cyfan, roeddent yn cefnogi'r bwriad, er bod pryder cyffredinol ynghylch y posibilrwydd o golli gwybodaeth – er enghraifft os caiff arbenigwyr bysiau eu lleoli yn y cwmni hyd braich. Nododd awdurdodau y byddai'n ddefnyddiol cael hyn fel rhan o'r adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau ond codwyd pryderon ynghylch y cyllid a fyddai ei angen. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Caerdydd, y mae gan y ddau ohonynt gwmnïau bysiau trefol eisoes, yn croesawu'r bwriad hwn ond gwnaethant godi pryderon ynghylch p'un a fyddai masnachfreinio gwasanaethau yn eu hardaloedd yn peri risg i'w cwmnïau. Nododd Cyngor Sir Penfro, sy'n gweithredu llwybrau mewnol ar hyn o bryd o dan adran 22 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 y byddai'n well ganddo gael gweithrediad mewnol yn hytrach na gweithrediad hyd braich.

Cwestiwn 14 – (Cwmnïau bysiau trefol)

A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i awdurdodau lleol gaffael neu fuddsoddi mewn cwmnïau bysiau?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion		Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1	Cytuno'n gryf	49.3%	351
2	Cytuno	27.7%	197
3	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	13.9%	99
4	Anghytuno	3.2%	23
5	Anghytuno'n gryf	4.6%	33
6	Arall	1.3%	9
Sylwadau:			155
wedi ateb			712
wedi hepgor			27



Roedd 77% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid caniatáu i awdurdodau lleol gaffael neu fuddsoddi mewn cwmnïau bysiau. Ceir cefnogaeth gref a chlr iawn i'r nod hwn.

Cafwyd 155 o sylwadau pellach ar y cwestiwn hwn.

Ychwanegodd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf sylwadau yn awgrymu na allai'r cwmni fod yn ddibynnol ar fuddsoddiad cyhoeddus parhaus, y dylai elw gael ei roi'n ôl i mewn i'r sytem bysiau leol yn hytrach na'i rannu ymysg meysydd eraill o'r awdurdod lleol, ac na ddylai effeithio'n annheg ar drethdalwyr. Cafwyd safbwyntiau croes ynghylch p'un a ddylai'r cwmni gael ei weithredu fel cwmni "nid-er-elw" neu gwmni "sy'n dwyn elw". Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr, yn enwedig yn yr adran "cytuno'n gryf", y dylai'r diwydiant bysiau gael ei weithredu'n gwbl gyhoeddus.

Nododd rhai o'r ymatebwyr y byddai hyn yn syniad da pe bai Gweithredwr Dewis Olaf ac y dylid ffafrio'r opsiwn hwn.

Nododd ambell un y byddai angen i'r cwmni ddilyn rheolaethau clir a pheidio â cael ei ffafrio ar gyfer contractau.

Nododd sawl un y byddai'n dibynnu ar yr awdurdod lleol dan sylw, a lefel yr arbenigedd ynddo i allu rheoli'r cwmni.

Unwaith eto, mae'n bwysig ein bod yn edrych yn benodol ar yr ymatebion gan awdurdodau lleol:

Data gan ymatebwyr o awdurdodau lleol:

Dewis o Atebion	Canran Ymateb
Cytuno'n gryf	11%
Cytuno	33%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	44%
Anghytuno	0%
Anghytuno'n gryf	6%
Arall	6%


Mynegwyd rhai pryderon y gellid ystyried bod buddsoddiad yn rhoi anfantais annheg i gwmnïau trefol dros weithredwyr masnachol mewn cyfundrefn fasnachfreinio lle byddai'r awdurdod lleol yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r rhwydwaith. Mae sawl un o'r farn y byddai hyn yn dibynnu ar amgylchiadau lleol, ac y byddai angen i bob awdurdod ystyried y risiau a'r manteision i'w ardal.

Cwestiwn 15 – (Cwmnïau bysiau trefol)

A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i gwmnïau bysiau trefol godi arian drwy fenthyca neu werthu cyfranddaliadau?

Rhowch sgôr o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf.

Dewis o Atebion	Canran Ymateb	Cyfanswm Ymateb
1 Cytuno'n gryf	21.0%	147
2 Cytuno	21.0%	147
3 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	26.7%	187
4 Anghytuno	12.3%	86
5 Anghytuno'n gryf	8.8%	62
6 Arall	10.3%	72
Sylwadau:		227
	wedi ateb	701
	wedi hepgor	38



Nid yw'r ymateb i'r cwestiwn hwn wedi dangos mwyafrif clir o blaid neu yn erbyn y cynnig fel y'i gwelwyd mewn cwestiynau blaenorol. Mae'r 227 o sylwadau yn bennaf yn dilyn y thema bod yr ymatebwyr (y rhai sy'n cytuno a'r rhai sy'n anghytuno) yn ofni bod hon yn risg ariannol na ddylid gadael i awdurdod lleol ei dwyn.

Awgrymodd llawer, pe bai cyfranddaliadau'n cael eu cynnig, mai dim ond pobl leol a allai eu prynu; busnesau lleol; aelodau o staff. Nododd rhai y gellid caniatáu hyn, ar yr amod bod y cwmni'n parhau i fod o dan berchnogaeth gyhoeddus fwyafrifol.

O'r rhai a oedd yn anghytuno ac yn anghytuno'n gryf, roedd y sylwadau'n seiliedig ar y dyhead i gael gwasanaeth wedi'i wladoli. Awgrymodd rhai y dylid ailfuddsoddi elw yn y gwasanaeth bysiau yn hytrach na'i roi i gyfranddalwyr, neu eu bod yn ofni y byddai cyfranddalwyr yn gwthio'r gwasanaeth bysiau sydd dan berchnogaeth gyhoeddus i berchnogaeth breifat.

Nododd rhai sylwadau y dylid sicrhau chwarae teg rhwng pob gweithredwr, ac y dylai'r polisi adlewyrchu hyn.

Unwaith eto, mae'n bwysig ein bod yn edrych yn benodol ar yr ymatebion gan awdurdodau lleol:

Data gan ymatebwyr o awdurdodau lleol:

Dewis o Atebion	Canran Ymateb
Cytuno'n gryf	6%
Cytuno	29%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	18%
Anghytuno	29%
Anghytuno'n gryf	0%
Arall	18%

Cafwyd ymatebion cymedrol i'r cwestiwn hwn. Codwyd cwestiynau ynghylch ble y byddai'n rhaid i'r elw fynd a ph'un a fyddai elw'n cael ei gyfeirio at gyfranddalwyr yn hytrach na'i ailfuddsoddi er mwyn gwella seilwaith bysiau. Fodd bynnag, cafwyd rhai sylwadau ar yr angen i allu gwneud y gorau o fuddsoddiad.

Cwestiwn 16 – (Cwmnïau bysiau trefol)

A oes unrhyw fesurau diogelu ychwanegol yr hoffech eu gweld sy'n berthnasol i arfer y pwerau hyn?

Rhoddodd 218 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwyntiau a wnaed eisoes mewn cwestiynau eraill. Codwyd y themâu canlynol yn ogystal:

(mae'r rhestr yn nhrefn yr wyddor fel na roddir blaenoriaeth na ffafriaeth i'r pynciau)

Byrddau:

Dylai unrhyw fyrddau gynrychioli pob rhan o'r diwydiant cyfan yn yr un modd – dylai hyn gynnwys defnyddwyr a chynrychiolwyr nodweddion gwarchoddedig perthnasol.

Buddsoddiad, gwerthiannau a materion ariannol eraill o'r fath:

Nododd yr ymatebwyr fod angen rheoli'r portffolio masnachfaint yn ofalus ac na ddylid caniatáu buddsoddiadau sy'n dwyn risg, gan mai arian cyhoeddus ydyw. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cadw taliadau bonws i Brif Swyddogion Gweithredol a chyfranddalwyr dan reolaeth, y dylid rhoi unrhyw elw yn ôl i mewn i'r system bysiau a pheidio â'i ddargyfeirio i wasanaethau cyhoeddus a phe bai gwasanaethau sydd dan berchnogaeth gyhoeddus yn cael eu gwerthu, y dylid ystyried cadw'r gwerthiant o fewn marchnad Cymru.

Cyfnod pontio:

Nododd ambell ymatebydd y dylid rhoi dull ar waith i gefnogi perchnogion bysiau presennol, yn ariannol a hefyd gyda'r broses fasnachfreinio; dylid rhoi sylw gofalus fel nad effeithir yn andwyol ar wasanaethau trawsffiniol.

Dyfarnu contractau:

Nododd rhai o'r ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol allu dyfarnu contractau yn uniongyrchol o rwydwaith bysiau wedi'i fasnachfreinio/dan berchnogaeth gyhoeddus i'w weithredwr sydd dan berchnogaeth y cyngor.

Fforddiadwyedd:

Gwnaed sylwadau ynghylch sicrhau bod tocynnau i deithwyr ar gael am brisiau fforddiadwy a deniadol. Soniodd yr ymatebwyr hefyd am fforddiadwyedd y cynllun yn ei gyfanrwydd.

Mynediad:

Roedd yr ymatebwyr am gael sicrwydd bod atebolrwydd i sicrhau mynediad i bobl anabl ar wasanaethau ac ar y rhwydwaith.

Newidiadau deddfwriaethol:

Rhaid ystyried cyfraith yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd/cyfraith Cystadleuaeth mewn unrhyw newid deddfwriaethol.

Safonau a monitro:

Awgrymodd ambell sylw y dylid rhoi ombwdsmon annibynnol ar waith i oruchwylio bod yr ansawdd yn gyson ac y cedwir at y safonau ym mhob rhan o'r rhwydwaith. Nododd rhai y dylid rhoi cyfle i'r cyhoedd graffu ar hyn yn llawn ac agored. Gwnaed sylwadau ynghylch eitemau a ddylai fod mewn contractau masnachfaint. Ymysg y rhain roedd – Cyfnod rhybudd hir ar gyfer terfynu gwasanaethau; cyflogau da i staff; cyhoeddi adolygiadau ansawdd yn rheolaidd; dylid cymhwyso cytundebau lefel gwasanaeth gofynnol at gontractau; dylid annog prosesau adolygu a monitro cymheiriaid.

Cwestiwn 17 – (Cyffredinol)

A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ar gynnwys y papur gwyn hwn?

Ychwanegodd 240 o ymatebwyr sylwadau pellach yma.

O'r sylwadau a ddaeth i law, aethpwyd i'r afael â'r pynciau cyffredinol canlynol -
(mae'r rhestr yn nhrefn yr wyddor fel na roddir blaenoriaeth na ffafriaeth i'r pynciau)

Argyfwng yr hinsawdd:

Roedd sylwadau rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi'r nod o annog pobl allan o'u ceir ac ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n fwy cyfeillgar i'r hinsawdd.

Cyllid:

Codwyd rhai gwestiynau ynghylch sut y byddai'r dyheadau'n cael eu hariannu, a chroesawyd rhagor o wybodaeth ar sut y caiff hyn ei gyflawni.

Defnydd:

Gofynnwyd cwestiynau gan rai ynghylch pa ystyriaeth a roddwyd i sut i ddenu teithwyr ar fysiau.

Dibynadwyedd:

Roedd llawer o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau ynghylch gwasanaethau a gollwyd yn eu hardal, a dymuniad i wella gwasanaethau. Cafwyd sylwadau hefyd ar ddibynadwyedd gwasanaethau, a bod amserlennu byw cyfredol mewn arosfannau bysiau ac ar ap yn hanfodol, ynghyd â sicrhau bod gwasanaethau'n darparu'r amserlen a addawyd.

Fflyd:

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai'r holl fysiau, ni waeth pwy yw'r gweithredwr, yn edrych yr un fath ym mhob rhan o'r rhwydwaith. Roedd rhai yn croesawu'r parhad hwn, gan nodi po fwyaf adnabyddus a chyfarwydd yw gwasanaeth, mwyaf rhwydd a naturiol ydyw i'w ddefnyddio. Holodd rhai beth fyddai'n digwydd i'r fflyd bresennol a pha mor gyflym y byddai'r bysiau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd yn cael eu cyflwyno ac a eid i'r afael ag ardaloedd lle ceir cerbydau o safon isel ar hyn o bryd i ddechrau.

Gwasanaethau gwledig:

Mae'n amlwg o'r sylwadau bod llawer o'r ymatebwyr yn awyddus i weld gwasanaethau yn cael eu gwella mewn cymunedau gwledig a chymunedau bach. Soniodd llawer o'r ymatebwyr am ardaloedd penodol a rhifau llwybrau yn eu hymatebion. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn glir eu bod am weld polisi sy'n sicrhau nad gwasanaethau cymunedau gwledig a chymunedau bach yw'r cyntaf i gael eu torri o fasnachfreintiau pe bai angen. Gwelwyd dyhead clir am

wasanaethau cydradd ym mhob rhan o'r rhwydwaith mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Gwasanaethau trawsffiniol:

Codwyd ambell i gwestiwn o ran sut y bydd gwasanaethau trawsffiniol yn gweithio ac a fydd y broses tocynnau'n wahanol ar y gwasanaethau hyn. Lleisiodd rhai ymatebwyr eu dyhead i gael gwasaneth hawdd ei ddefnyddio na chaiff ei ddiffinio gan ffiniau.

Gweithredwyr sy'n BBaChau:

Cafwyd 16 o sylwadau ynghylch gweithredwyr sy'n BBaChau. Roedd llawer am gael sicrwydd i ddiogelu a chefnogi'r farchnad BBaChau o fewn y gyfundrefn fasnachfreinio. Rhoddodd llawer sylwadau pellach i gydnabod y rhan bwysig y mae gweithredwyr sy'n BBaChau yn ei chwarae yn y system bresennol, a'r hyn y gallant ei gyfrannu yn y dyfodol.

Gyrwyr a staff eraill sy'n hanfodol i'r gwasanaeth:

Codwyd pryderon ynghylch y gallu i wir ddarparu rhwydwaith ledled Cymru gyda'r prinder gyrwyr ar hyn o bryd a phrinder staff eraill sy'n hanfodol i'r gwasanaeth (er enghraifft gwerthwyr tocynnau, glanhawyr a thimau arlwyo). Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch beth a gaiff ei wneud i ddenu a chadw pobl yn y rolau hyn.

Hygyrchedd:

Nododd rhai sylwadau fod yn rhaid i'r rhwydwaith bysiau fod yn hygyrch i bob defnyddiwr.

Parhad gwasanaeth ar draws y rhwydwaith:

Roedd ambell ymatebydd yn croesawu'r cyfle am barhad ym mhob rhan o'r rhwydwaith. Soniodd rhai am yr angen am wasanaeth cwsmeriaid gwell gan groesawu dull Cymru gyfan at hyfforddiant a safonau gwasanaeth. Roedd rhai yn pryderu y gall model canoledig arwain at ddiffyg meddwl "lleol" ac y gall materion fel ymdrin â chwynion fod yn llai personol pan eir i'r afael â nhw yn ganolog a heb wybodaeth leol, er enghraifft.

Seilwaith:

Gofynnwyd rhai cwestiynau ynghylch a fyddai seilwaith yn gyfrifoldeb canolog neu'n gyfrifoldeb i'r gweithredwr. Er enghraifft, sut y byddai depos, gorsafodded gwefru ac ati yn cael eu rhannu? Nododd rhai nad yw'r Papur Gwyn yn mynd i'r afael â thagfeydd a sut y bydd y rhwydwaith canoledig yn mynd i'r afael â hyn ac yn helpu'r sefyllfa.

Teithio integredig:

Gofynnodd rhai ymatebwyr am gael ailgyflwyno rhai o'r llinellau rheilffordd a gaewyd er mwyn cysylltu ardaloedd o Gymru yn well. Roedd integreiddio â dulliau teithio eraill yn bwysig i lawer o'r ymatebwyr.

Teithio llesol:

Gofynnodd rhai sylwadau am welliannau er mwyn ei gwneud yn haws i bobl feicio i gyrraedd gwasanaethau bysiau ac oddi yno, gan gynnwys rheseli beiciau ar fysiau, caniatáu beiciau ar fysiau, a storffeydd diogel i feiciau mewn gorsafoedd bysiau allweddol.

Tocynnau:

Cwestiynodd rhai pobl sut y byddai'r system docynnau yn gweithio, yn enwedig ar draws yr holl rwydwaith trafndiaeth. Roedd pobl hefyd yn awyddus i wybod a fyddai'r cynllun tocynnau teithio consesiynol yn parhau. Gofynnodd rhai pobl am system hawdd i'w defnyddio fel systemau "tapio wrth fynd ar ac oddi ar fysiau" fel y'u gwelir mewn ardaloedd eraill. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a ellid cael system docynnau nad yw'n dibynnu ar rwydweithiau symudol, oherwydd y gallai hyn ynysu rhai ardaloedd gwledig o Gymru ymhellach, a rhai o'r boblogaeth hŷn y gall mynediad digidol yn unig fod yn rhwystr iddynt

Uchelgais:

Roedd rhai ymatebwyr yn cymeradwyo'r uchelgais yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, awgrymodd eraill ei fod yn rhy uchelgeisiol, gan bryderu na fyddai'n gyflawnadwy.

Cwestiwn 18 – (Aseiad Effaith Rheoleiddiol Drafft)

A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r papur hwn?

Mae'r ddogfen Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn ddogfen dechnegol, a dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliad beidio ag ymateb neu nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau – a dewisodd ambell ymatebydd achub ar y cyfle hwn i atgyfnerthu pwyntiau blaenorol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Cododd y rhai a wnaeth sylwadau ansicrwydd ynghylch a oedd yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn cyfeirio at fasnachfreinio ar lefel genedlaethol, neu fel 22 o gynlluniau unigol. Hefyd, cwestiynodd un sylw y gymhariaeth a wnaed â'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd eraill a ph'un a oeddent yn debyg i ddemograffeg Cymru.

Roedd sefydliadau, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r diwydiant trafndiaeth, yn llawer mwy parod i roi sylwadau ar agweddau technegol ar yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Byddwn yn ystyried yr ymatebion hyn yn fanwl wrth ddiweddarau'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft, ond codwyd y themâu canlynol:

- Modelu masnachfreinio unigol yn erbyn model cenedlaethol a phrofi straen
- Cyfrifiadau gwireddu buddiannau
- Ansicrwydd COVID-19 o hyd ar arferion teithio
- Datblygu achos busnes llawn

- Buddiannau Masnachfreinio dros Bartneriaethau Estynedig
- Ffactorau llwyddiant arferion gorau
- Hyd cyfnodau arfarnu
- Yr angen i fodelu y tu hwnt i effeithiau o fewn y diwydiant
- Ystyried graddau cymharwyr rhyngwladol neu ranbarthol yn erbyn datrysiad Cymru gyfan.
- Yr angen i nodi amrywiadau rhanbarthol

Cwestiwn 19 – (y Gymraeg)

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Ymatebodd 332 o bobl i'r cwestiwn hwn.

Ar ôl dadansoddi'r sylwadau a ddaeth i law, rhannodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr safbwynt cadarnhaol neu niwtral ar y cwestiwn hwn, neu gwnaethant nodi nad oedd ganddynt safbwynt.


Tynnodd y rhai a rannodd ymatebion cadarnhaol sylw at y cyfleoedd y byddai hyn yn eu cynnig i hyrwyddo'r iaith. Tynnodd llawer sylw at y ffaith y byddai mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar drafnidiaeth gyhoeddus yn “annog ymdeimlad o gymuned a pherchogaeth a rennir ac y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar ymdeimlad pobl o hunaniaeth, gan gynnwys eu hunaniaeth ieithyddol.” Nododd yr ymatebwyr hefyd y byddai defnyddio'r Gymraeg ar drafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn cyfoethogi profiad twristiaid ac ymwelwyr â'r ardal. Awgrymodd un ymatebydd hefyd y byddai “... bore da cyfeillgar ac ambell i frawddeg sylfaenol gan y gyrrwr yn normaleiddio'r iaith rhywfaint” a “posteri ar ben blaen y bws gydag ymadrodd yr wythnos a chyfieithiad”.

Codwyd cwestiynau ynghylch sut y byddai'r Gymraeg yn cael ei chymhwyso ar wasanaethau trawsffiniol. Hefyd, gofynnodd un ymatebydd a ellid rhoi ystyriaeth ofalus ar arwyddion dwyieithog i sicrhau y gellir darllen gwybodaeth diogelwch yn hawdd ac nad yw'n anodd ei darllen na dod o hyd iddi.

O'r rhai a rannodd sylwadau niwtral neu negyddol, cododd y mwyafrif bryderon y gallai blaenoriaethu'r Gymraeg effeithio ar gost a chymhlethdod darparu gwasanaethau, neu beri risg y byddai'r prinder gyrwyr yn gwaethygu.

Cwestiwn 20 – (y Gymraeg)

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.



Mae'r ymateb i'r cwestiwn hwn yr un mor gadarnhaol â Chwestiwn 19. Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i dynnu sylw at fuddiannau cael staff dwyieithog, gyda rhai yn nodi bod hyn yn gyfle i hyrwyddo cyflogaeth leol mewn cymunedau lle ceir niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Roedd eraill yn pryderu y byddai gorfodi staff dwyieithog yn gwaethygu problemau presennol ynghylch prinder staff ymhlith y gweithlu. Fodd bynnag, byddai llawer o'r ymatebwyr yn fodlon pe bai ychydig o ymadroddion a chyfarchion cyffredin y unig yn cael eu haddysgu i yrwyr gyda mwyafrif llethol yn cytuno bod angen arwyddion, gwybodaeth a chyhoeddiadau dwyieithog.

Gan adlewyrchu'r cwestiwn blaenorol, roedd cyfran o'r ymatebwyr yn awyddus i sicrhau na fyddai ymyriadau iaith Gymraeg ar draul lefelau gwasanaeth.

Pwysleisiodd sefydliadau bwysigrwydd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Tynnodd sefydliadau sylw hefyd at y cyfle i gysylltu â chymunedau ynysig Cymraeg eu hiaith.

Cwestiwn 21 – (Sylwadau eraill)

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.



Yn ogystal ag ymatebion penodol i'r cwestiwn hwn, rydym wedi crynhoi yma unrhyw ymatebion a gyflwynwyd inni nad oeddent yn ateb y cwestiynau yn ein dogfen ymgynghori yn benodol.

Achubodd nifer o'r ymatebwyr ar y cyfle hwn i leisio pryderon am wasanaethau bysiau presennol y byddent yn hoffi eu gweld yn cael eu lleddfu o dan fodel darparu newydd.

I lawer, roedd hyn yn tynnu sylw at ble mae patrymau gwasanaeth presennol yn eu siomi. Gwnaed sylwadau ynghylch gwasanaethau a oedd wedi'u tynnu'n ôl, neu heb gael eu cyflwyno o gwbl mewn rhai achosion, rhwng canolfannau poblogaeth, gan ei gwneud hi'n anodd i bobl gael mynediad i waith, addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden, a gan ynysu pobl mewn rhai achosion. Soniodd eraill am bwysigrwydd gwasanaethau gyda'r nos, fel y gall pobl sy'n defnyddio'r bws gyrraedd adref gyda'r nos gan ddefnyddio dull dibynadwy.

Tynnodd yr ymatebwyr hefyd sylw at bwysigrwydd integreiddio â dulliau eraill. Yn benodol, soniodd pobl am bwysigrwydd integreiddio â'r rheilffyrdd o ran amserlenni, fel y gall pobl wneud newidiadau hawdd i barhau ar eu teithiau heb orfod aros yn hir, a thocynnau sy'n seiliedig ar deithiau fel ei bod yn hawdd i deithwyr, yn hytrach na'u bod wedi'u cynllunio o amgylch pa ddull maent yn ei ddefnyddio i deithio. Rydym hefyd wedi cael sylwadau am integreiddio â llwybrau cerdded a beicio, yn benodol gan sicrhau bod lleoedd neu reseli beiciau ar gael ar fysiau fel y gall pobl feicio'n hawdd i'r arhosfan fysiau ac oddi yno.

Ynghyd â'r sylwadau penodol ynghylch ble yr hoffent weld eu gwasanaethau lleol yn cael eu gwella, cododd yr ymatebwyr hefyd ffactorau a fyddai'n ei gwneud yn haws iddynt ddefnyddio bysiau. I rai, gwybodaeth well i deithwyr oedd hyn, gan gynnwys gwybodaeth amser real. I eraill, roedd a wnelo hyn â phwysigrwydd hanfodol hygyrchedd a diogelwch gwasanaethau, boed hynny'n hygyrchedd arosfannau bws, gwybodaeth amserlen nad yw'n ddigidol, cyhoeddiadau sain ar y bws ynghylch arosfannau, neu amgylchedd sy'n teimlo'n ddiogel ar gyfer merched sy'n teithio ar eu pennau eu hunain.

Cawsom sylwadau hefyd am yr heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio bysiau mewn ardaloedd gwledig, a'r angen am rwydweithiau a modelau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol, ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael, o gynllunio a marchnata ein gwasanaethau bysiau'n well i dwristiaid i sicrhau eu bod yn cefnogi ein heconomi ymwelwyr ac yn cael eu cefnogi ganddi.

Yn olaf, cawsom sylwadau ar y meysydd lle y gallem o bosibl edrych y tu hwnt i wasanaethau bysiau traddodiadol a amserlennir gan ymatebwyr a ofynnodd inni sicrhau ein bod yn ystyried rôl trafnidiaeth sy'n ymateb i alw yn ein rhwydwaith bysiau lle gall ddiwallu anghenion teithio pobl yn fwyaf effeithlon ac effeithiol.

ADRAN TRI: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad – Un Rhwydwaith Un Amserlen, Un Tocyn: Cynllunio Bysiau fel Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru

Casgliadau a'r camau nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch o galon am yr ymateb a gawsom ar y papur gwyn hwn.

Rydym yn falch bod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion ac rydym yn croesawu'r nifer sylweddol o sylwadau a ddaeth i law ynghyd â'u natur amrywiol. Bydd y rhain yn llywio ein ffordd o feddwl wrth inni barhau i weithio gyda'n partneriaid i gadarnhau ein cynigion i wella gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am sefydliadau, nododd 103 eu bod yn perthyn i sefydliad.

Categori Sefydliad	Nifer
Awdurdod Lleol	18
Busnes Arall	5
Busnes Manwerthu	3
Comisiynydd Cymru	2
Corff Cyhoeddus Arall	1
Corff Cymunedol a'r Trydydd Sector	24
Corff Cynrychioliadol, Corff Proffesiynol neu Gymdeithas	7
Corff Rhanbarthol	2
Corff ymchwil/addysgol	3
Cwmni bysiau/coetsys	11
Cwmni Trafnidiaeth Arall	4
Cyngor Cymuned/Tref	7
Cymdeithas Diwydiant	13
Lletygarwch/Gwesty/Gwely a brechwast	1
Plaid/Grŵp Gwleidyddol	2
	103

Gwnaethom ofyn a oedd gan yr ymatebwyr fudd busnes yng Nghymru:
Nododd 15.69% o'r ymatebwyr (113) fod ganddynt fudd busnes yng Nghymru
Nododd 71.44% o'r ymatebwyr (518) nad oedd ganddynt fudd busnes yng Nghymru
Ni roddodd 12.36% o'r ymatebwyr (89) unrhyw ateb
(roedd 21 o bobl wedi hepgor y cwestiwn)